**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **12 GORFFENNAF 2012** |
| TEITL | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2011/12** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R DATGNIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2011/12 I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR** |

---

## 1. CYFLWYNIAD – BETH YW PWRPAS Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL?

1.1 Mae'r ddeddfwriaeth, canllawiau ac arweiniad ynglŷn â'r angen i baratoi a darparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd. Gofyniad gwreiddiol CIPFA oedd fod awdurdodau lleol perthnasol yn cynnwys Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol gyda'u cyfrifon bob blwyddyn.

1.2 Datblygodd hyn yn angen i ddarparu Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol, oedd yn edrych ar y trefniadau i reoli risgiau ehangach na rhai ariannol yn unig. Dyma'r gofyn sy'n parhau i gael ei gynnwys yn echblyg yn y ddeddfwriaeth perthnasol, sef rheoliad 4(2)(a) o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010):

> **Rhaid i'r corff llywodraeth leol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei system o reoli mewnol, a rhaid cynnwys datganiad ar reoli mewnol, a baratowyd yn ôl arferion priodol, lle bo'n berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhwym arno i'w gyhoeddi.**

### 1.3 Beth yw "Arferion Priodol"?

1.3.1 Diffinnir yr "Arferion Priodol" ar gyfer paratoi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol statudol fel Datganiad CIPFA o Ymarfer Argymelledig ("SORP"), sef y Côd Ymarfer ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r SORP yn ei dro yn datgan fod angen ystyried Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government* fel arferion priodol hefyd.

1.3.2 Cyhoeddwyd y Fframwaith CIPFA / SOLACE yn 2007 er mwyn rhoi arweiniad clir i awdurdodau lleol er annogaeth gweithrediad gyson wrth ymdrin ag agweddau llywodraethu, gan ddiffinio'r egwyddorion a ddylai danategu trefniadau llywodraethu pob awdurdod lleol. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd ychwanegiad yn 2010 sy'n cyfeirio at rôl y Prif Swyddog Cyllid o fewn y broses lywodraethu.

1.4 Mae'r SORP a Fframwaith CIPFA / SOLACE ill dau yn mynegi erbyn hyn fod angen cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ehangach, sy'n ymgorffori'r Datganiad Rheolaeth Fewnol.

1.5 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw datgan fod yr awdurdod wedi ystyried ei fframwaith lywodraethu, ac i adrodd fod hwn yn parhau'n ddigonol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac i arddangos fod cynlluniau yn eu lle i weithredu ble gwelir unrhyw wendidau yn y trefniadau llywodraethu.

## 2. CÔD LLYWODRAETHU LLEOL Y CYNGOR

2.1 Cymeradwywyd Côd Llywodraethu Lleol y Cyngor gan y Bwrdd ar 5 Ebrill 2011. Mae'r côd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1; mae'n seiliedig ar y chwech egwyddor craidd yn Fframwaith CIPFA / SOLACE, sef:

Egwyddor Graidd 1: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i'r gwasanaeth).

Egwyddor Graidd 2: Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.

Egwyddor Graidd 3: Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.

Egwyddor Graidd 4: Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg.

Egwyddor craidd 5: Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.

Egwyddor craidd 6: Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.

2.2 Yn ôl Fframwaith CIPFA / SOLACE, dylid paratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n cynnwys gynnwys pump rhan unigol (yn ogystal â datganiad o farn ar y diwedd):

| **Rhan** | **Pennawd** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|
| Rhan 1 | Cwmpas Cyfrifoldeb | Cydnabyddiaeth fod yna gyfrifoldeb i sicrhau fod system gadarn o reolaeth fewnol yn ei le. |
| Rhan 2 | Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu | Arwydd o'r lefel o sicrwydd y gall system o reolaeth fewnol ei ddarparu. |
| Rhan 3 | Y Fframwaith Llywodraethu (h.y. disgrifiad o'r trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle yn yr Awdurdod) | Disgrifiad cryno o elfennau allweddol amgylchedd reolaeth fewnol gan gynnwys y rheolaethau sy'n cyfateb i weithgareddau grŵp lle mae'r gweithgareddau hyn yn arwyddocaol. |
| Rhan 4 | Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu | Disgrifiad cryno o'r broses sydd wedi ei ddefnyddio er mwyn cynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol, gan gynnwys peth sylw ar rôl: yr awdurdod; y swyddogaeth weithredol; y pwyllgor archwilio a pwyllgorau craffu/rheoli risg; archwilio mewnol ac unrhyw fecanwaith adolygu/sicrwydd penodol arall. |
| Rhan 5 | Materion Llywodraethu Arwyddocaol (h.y. materion llywodraethu sydd angen sylw pellach) | Amlinelliad o'r camau a gymerwyd, neu sy'n arfaethedig, er mwyn delio â materion rheolaeth fewnol arwyddocaol. |

2.3 Gan mai 2011/12 oedd y flwyddyn gyntaf yr oedd y Côd Llywodraethu Lleol yn ei le, mae Rhannau 3 a 4 y Datganiad drafft, sef disgrifiad o fframwaith lywodraethu'r Cyngor ac asesiad o'i effeithiolrwydd, wedi eu gosod allan yn nhrefn y 6 egwyddor craidd am y tro cyntaf eleni.

2.4 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft wedi ei gynnwys yn Atodiad 2. Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei gyhoeddi gyda'r Datganiad o Gyfrifon.

2.5 Dywed Fframwaith CIPFA / SOLACE fod rhaid i Rhan 3 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gynnwys disgrifiad o drefniadau'r awdurdod i:

- Adnabod a chyfathrebu gweledigaeth yr awdurdod
- Adolygu gweledigaeth yr awdurdod a'i goblygiadau ar gyfer trefniadau llywodraethu
- Mesur ansawdd gwasanaeth i'r defnyddwyr, sicrhau darparir hwy yn unol ag amcanion yr awdurdod a defnydd gorau o adnoddau.
- Diffinio a dogfennu swyddogaethau, gyda threfniadau dirprwyo clir a phrotocol ar gyfer cyfathrebu effeithiol.
- Datblygu a chyfathrebu côd ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion
- Adolygu a diweddaru rheolau sefydlog a'r prosesau a rheolaethau ar gyfer rheoli risg
- Sicrhau fod trefniadau rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu *Datganiad CIPFA ar rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol* (2010)
- Swyddogaeth y pwyllgor archwilio
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda chyfraith, deddfau, trefniadau mewnol a bod gwariant yn gyfreithlon
- Canu'r gloch a derbyn cwynion gan y cyhoedd
- Adnabod a datblygu anghenion aelodau ac uwch swyddogion
- Sefydlu modd clir ar gyfer cyfathrebu gyda'r gymuned a deiliad diddordeb eraill, gan sicrhau atebolrwydd ac ymgynghoriad agored
- Ymgorffori trefniadau llywodraethu da ar gyfer partneriaethau gan adlewyrchu'r rhain yn nhrefniadau llywodraethu yr Awdurdod

2.6 Mae Egwyddorion Craidd 1 i 6 yn Rhan 3 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn Atodiad 2 yn ystyried y penawdau ym mharagraff 2.5 yn eu tro.

## 3. SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO

3.1 Oherwydd rôl allweddol y Pwyllgor Archwilio yng nghyd-destun fframwaith lywodraethu'r Cyngor, mae gan y Pwyllgor swyddogaeth i herio cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, cyn argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

3.2 Wrth ddarparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'n hanfodol fod tystiolaeth yn ei le er mwyn cefnogi'r cynnwys cyn fod y ddogfen derfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, ei arwyddo ac yna'i gyhoeddi gyda'r Datganiad o Gyfrifon erbyn 30 Medi. Mae'r Côd Llywodraethu Lleol yn golygu fod fframwaith yn ei le erbyn hyn i gasglu'r dystiolaeth yma at ei gilydd, a gwelir fod rhannau 3 a 4 y Datganiad Llywodraeth Blynyddol yn cyfeirio i ffynhonnell y dystiolaeth a ddisgrifir.

3.3 Mae'r canlynol yn neilltuol o berthnasol fel ffynhonnell tystiolaeth ar gyfer y Datganiad:

- Cyfansoddiad y Cyngor:
  - Protocolau ar weithredu dyletswyddau statudol y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.
  - Cynlluniau Dirprwyo
  - Rheolau Gweithdrefn
  - Codau ymddygiad i aelodau a swyddogion
- Cynllun Tair Mlynedd Cyngor Gwynedd ac adolygiadau ohono
- Strategaeth Archwilio Mewnol
- Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol
- Adroddiadau archwilio a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio
- Strategaeth Gyllid
- Canllawiau Rheoli Perfformiad
- Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg
- Swydd-ddisgrifiadau'r swyddogion statudol

3.4 Defnyddiwyd datganiadau, sylwadau a gosodiadau o'r ffynonellau hyn a gan swyddogion allweddol er mwyn ysgrifennu'r Datganiad.


## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ymgorffori Datganiad Rheolaeth Fewnol Cyngor Gwynedd, ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 a'r cyfnod ers dyddiad y fantolen.

# CYNGOR GWYNEDD

# CÔD LLYWODRAETHU LLEOL

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn y dull gorau posib.  Er mwyn cyflawni hyn mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r chwe egwyddor craidd o "Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol" (*Cipfa/Solace 2007*).




Mae gan bob un o'r chwe egwyddor craidd nifer o egwyddorion cefnogol.

Ystyr “llywodraethu da” ydi sicrhau fod y fframwaith polisïau, systemau, gweithdrefnau a strwythurau sydd, gyda’i gilydd yn rheoli’r ffordd mae’r Cyngor yn gweinyddu ei fusnes, yn cydymffurfio hefo’r chwe egwyddor uchod.

Mae llywodraethu da yn golygu bod gwerthoedd a diwylliant y Cygnor yn gweddu i’r egwyddorion hyn.

Mae llywodraethu da yn golygu gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i’r bobl iawn, mewn modd amserol, gynhwysol, agored, onest ac atebol.

Mae’r Cyngor yn cydnabod bod llywodraethu da yn arwain at reolaeth dda, perfformiad da, cysylltiadau da hefo’r gymuned ac yn y pen draw deilliannau da i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ystod 2010 cynhaliodd y Cyngor hunan asesiad o’i drefniadau llywodraethu gan asesu yn erbyn pum thema:

- llwyddiannau a chanlyniadau
- arwain a llywodraethu
- ymgysylltu â chwsmeriaid, cymunedau a phartneriaid
- rheoli adnoddau a pherfformiad
- trefniadaeth a phobl.

‘Roedd canlyniadau’r hunan asesiad yn adnabod mannau o gryfder ynghyd a materion i dderbyn sylw mewn cynllun gweithredu. Mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn yr hunan asesiad yn sail i’r Côd Llywodraethu Lleol.

Pwrpas y Côd Llywodraethu Lleol hwn yw crynhoi mewn un ddogfen yr egwyddorion mae’r Cyngor yn eu harddel wrth lywodraethu ynghyd â disgrifiad o’r polisïau, strategaethau a gweithdrefnau sy’n dangos sut mae’r Cyngor yn bwriadu cwrdd â nhw. Bydd yn ddogfen fyw ac fe ychwanegir ati wrth i bolisïau a strategaethau eraill gael eu datblygu yn dilyn yr hunan asesiad.

Bydd y Côd hwn yn cael ei adolygu’n flynyddol wrth i’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei lunio.

| |
|---|
| **Egwyddor craidd 1:** <u>Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i'r gwasanaeth).</u> |
| *Egwyddorion cefnogol*:<br>• Ymarfer arweinyddiaeth strategol drwy ddatblygu a chyfathrebu'n glir bwrpas a gweledigaeth yr awdurdod a'r deilliannau a fwriedir ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.<br>• Sicrhau fod defnyddwyr yn derbyn ansawdd uchel o wasanaeth naill ai yn uniongyrchol, neu mewn partneriaeth, neu trwy gomisiynu.<br>• Sicrhau fod yr awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth am arian ardderchog. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Gwerthoedd y Cyngor.<br>• Cynllun Tair Blynedd y Cyngor<br>• Y Strategaeth Gymunedol<br>• Datganiad o'r cyfrifon<br>• Strategaeth ariannol<br>• Y drefn gwynion<br>• Y gyfundrefn 'Cyflawni'<br>• Y Côd Llywodraethu Lleol<br>• Llythyr blynyddol yr Archwiliwr. |

| |
|---|
| **Egwyddor graidd 2:** <u>Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.</u> |
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar draws yr awdurdod a bod yn glir ynglŷn â swyddogaethau gweithredol ac anweithredol ac am rolau a chyfrifoldebau'r swyddogaeth graffu.<br>• Sicrhau fod perthynas weithio adeiladol yn bodoli rhwng aelodau a swyddogion yr awdurdod a bod cyfrifoldebau aelodau a swyddogion yr awdurdod yn cael eu cyflawni i safon uchel.<br>• Sicrhau fod perthynas rhwng yr awdurdod a'r cyhoedd yn glir fel bod y naill yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig oddi wrth y llall |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Cynllun dirprwyo i bwyllgorau<br>• Cynllun dirprwyo'r arweinyddion portffolio<br>• Cynllun dirprwyo i swyddogion<br>• Taflenni penderfyniad<br>• Disgrifiad o rolau a chyfrifoldebau aelodau<br>• Protocolau ar gyfer gweithredu swyddogaethau swyddogion statudol<br>• Protocol cyswllt aelod/swyddog<br>• Cynllun lwfansau aelodau |

| **Egwyddor graidd 3:** Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad. |
|---|
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Sicrhau fod aelodau a swyddogion yr awdurdod yn arfer arweinyddiaeth trwy ymddwyn mewn ffyrdd sydd yn arddangos safonau uchel o ymddygiad a llywodraethu effeithiol.<br>• Sicrhau fod gwerthoedd y gyfundrefn yn cael eu hymarfer ac yn effeithiol |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Côd Ymddygiad Aelodau<br>• Côd Ymddygiad Swyddogion<br>• Safon Gwynedd<br>• Rheolau gweithdrefn y Pwyllgor Safonau<br>• Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd<br>• Rheolau gweithdrefn y Cyngor<br>• Rheolau gweithdrefn ariannol<br>• Rheolau gweithdrefn contractau<br>• Y drefn werthuso<br>• Cynllun archwilio mewnol<br>• Polisi Rhoddion a Lletygarwch - swyddogion<br>• Polisi Rhoddion a Lletygarwch - aelodau<br>• Polisi buddiannau swyddogion<br>• Aadroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau. |

| **Egwyddor graidd 4:** Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg. |
|---|
| *Egwyddorion cefnogol*:<br>• Bod yn drwyadl a thryloyw ynglŷn â sut y gwneir penderfyniadau gan wrando a gweithredu ar ddeilliannau craffu adeiladol.<br>• Cael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth o ansawdd uchel er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu yn effeithiol, a'u bod yr hyn y mae'r gymuned ei eisiau/angen.<br>• Sicrhau fod system effeithiol i reoli risg yn ei lle.<br>• Defnyddio pwerau cyfreithiol at fudd llawn trigolion a chymunedau yn eu hardal. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Strategaeth rheoli risg<br>• Rheolau gweithdrefn trosolwg a chraffu<br>• Rheolau gweithdrefn mynediad at wybodaeth pwyllgorau<br>• Strategaeth trosolwg a chraffu<br>• Rhaglen hyfforddi aelodau (Craffu).<br>• Rhaglen hyfforddi swyddogion (Trefniadau Cyfansoddiadol)<br>• Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio<br>• Y drefn gwynion<br>• Taflenni penderfyniad<br>• Cofnodion pwyllgorau<br>• Côd Ymarfer "Canu'r Gloch".<br>• Llawlyfr Canllawiau i Gadeiryddion<br>• Y Strategaeth Gaffael<br>• Cofrestr Risgiau Corfforaethol |

| |
|---|
| **Egwyddor craidd 5:** Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol. |
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Gwneud yn siŵr fod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, gwybodaeth, profiad ac adnoddau angenrheidiol er mwyn perfformio'n dda yn eu rolau.<br>• Datblygu capasiti'r bobl sydd â chyfrifoldebau llywodraethu a gwerthuso eu perfformiad, fel unigolion ac fel grŵp.<br>• Annog talent newydd ar gyfer aelodaeth yr awdurdod fel y gwneir y defnydd gorau o sgiliau ac adnoddau unigolion wrth fantoli parhad ac adnewyddiad. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Rhaglen anwytho aelodau newydd<br>• Strategaeth hyfforddi aelodau<br>• Cynllun datblygu personol aelodau<br>• Cynllun datblygu a hyfforddi swyddogion<br>• Y drefn werthuso<br>• Cynllun olyniaeth<br>• Y drefn recriwtio<br>• Siarter Hyfforddi a Datblygu Aelodau<br>• Fframwaith cymwyseddau rheoli |

| |
|---|
| **Egwyddor craidd 6:** Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn. |
| *Egwyddorion cefnogol:*<br>• Ymarfer arweinyddiaeth trwy swyddogaeth graffu gadarn sydd yn ymgysylltu'n effeithiol â phobl leol a phob budd-ddeiliad sefydliadol lleol, gan gynnwys partneriaethau, a datblygu perthnasau atebol adeiladol.<br>• Cymryd agwedd gweithgar a chynlluniedig i ddeialog gydag, ac atebolrwydd i'r, cyhoedd er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth effeithiol ac addas, naill ai yn uniongyrchol gan yr awdurdod, mewn partneriaeth, neu trwy gomisiynu.<br>• Gwneud y defnydd gorau o adnoddau dynol trwy gymryd agwedd gweithgar a chynlluniedig i gwrdd â chyfrifoldebau i staff. |
| Y polisïau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi.<br>• Adroddiad blynyddol craffu<br>• Rheolau gweithdrefn mynediad at wybodaeth pwyllgorau<br>• Côd Ymarfer Cynllunio.<br>• Adroddiad blynyddol "Cyrhaeddiad y Cyngor".<br>• Y Strategaeth Gymunedol "Gwynedd ar y Cyd". |